OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2381 (Cy.254)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 45, Ynysforgan, Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Medi 2011* |
| *Yn dod i rym* | *3 Hydref 2001* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r drafffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2) yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Hydref 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 45, Ynysforgan, Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r drafffordd" *("the length of the motorway")* yw hyd cyfan ffordd ymadael tua'r gorllewin y drafffordd wrth Gyffordd 45, Ynysforgan, yn Ninas a Sir Abertawe;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 3 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn a chan y gwasanaethau brys.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darn o'r draffordd.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y mae'r erthygl yn cyfeirio ato yn weithredol.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 26 Medi 2011

***G R Morgan***
**G. MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru